Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad yn dilyn monitro
# Lefel y dilyniant: gwelliant sylweddol

**Ysgol Brynhyfryd**
**Ffordd yr Wyddgrug**
**Rhuthun**
**Sir Ddinbych**
**LL15 1EG**

**Dyddiad yr ymweliad: Medi 2016**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Ⓗ **Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Y tîm monitro**

| | |
|---|---|
| Hywel Jones | Arolygydd Cofnodol |
| Gareth Kiff | Arolygydd Tîm |
| Margaret Davies | Arolygydd Tîm |
| Delyth Gray | Arolygydd Tîm |

## Canlyniad yr ymweliad monitro

Bernir bod Ysgol Brynhyfryd wedi gwneud cynnydd digonol mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd ym Mai 2015.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn tynnu'r ysgol oddi ar y rhestr o ysgolion y mae angen gwelliant sylweddol arnynt.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

### Argymhelliad 1: Gwella safonau yng nghyfnod allweddol 4.

Cynnydd cryf wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Ers yr arolygiad craidd yn 2015, mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd cryf wrth wella perfformiad ym mhob un o'r dangosyddion allweddol yng nghyfnod allweddol 4. Mae data heb ei ddilysu ar gyfer 2016 yn dangos bod yr ysgol wedi gwneud gwelliant cadarn o ran y dangosyddion hynny sy'n cynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg yn benodol.

Mae data heb ei ddilysu ar gyfer 2016 yn dangos bod perfformiad o ran trothwy lefel 2 yn cynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg wedi gwella ar berfformiad y tair blynedd flaenorol, a arhosodd yn un fath. Mae'r data hwn yn dynodi gwelliant o bron i 10 pwynt canran ar ffigurau 2015.

Mae data heb ei ddilysu yn dangos bod perfformiad o ran y dangosydd pwnc craidd yn 2016 wedi gwella dros 12 pwynt canran o gymharu â ffigurau 2014 a 2015. Mae deilliannau o ran y dangosydd hwn wedi gosod yr ysgol yn y 50% gwaelod o ysgolion tebyg ym mhob un o'r tair blynedd rhwng 2013 a 2015.

Mae data heb ei ddilysu ar gyfer 2016 yn dangos bod perfformiad o ran trothwy lefel 2 wedi gwella'n sylweddol hefyd o gymharu â ffigurau blynyddoedd blaenorol. Mae'r data'n dangos bod deilliannau yn 2016 ryw 13 pwynt canran yn well nag yn 2015 pan osodwyd yr ysgol yn y 25% gwaelod o ysgolion tebyg am ei pherfformiad.

Ar sail data heb ei dilysu, perfformiad o ran trothwy lefel 1 yn 2016 yw perfformiad cryfaf yr ysgol yn y pedair blynedd diwethaf.

Mae data heb ei ddilysu yn dangos bod yr ysgol wedi gwrthdroi'r duedd ostyngol yn y blynyddoedd diweddar o ran cyfran y disgyblion yn ennill pum gradd A*-A. Mae perfformiad o ran y dangosydd hwn wedi gwella bron i wyth pwynt canran er 2015.

Yn ystod y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad yn y pynciau craidd yn unigol wedi amrywio. Mae data heb ei ddilysu ar gyfer 2016 yn dangos bod perfformiad wedi gwella'n dda.

Mae data heb ei ddilysu yn dangos bod perfformiad bechgyn a merched wedi gwella o ran bron pob dangosydd yn 2016. Mae perfformiad bechgyn mewn Saesneg wedi gwella ac mae'r bwlch rhwng eu perfformiad wedi lleihau. Fodd bynnag, mae merched wedi cyflawni'n well na bechgyn o ran trothwy lefel 2 yn cynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg.

Mae data heb ei ddilysu yn dangos bod perfformiad disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim wedi gwella'n sylweddol ers pan gynhaliwyd yr arolygiad craidd. Fe wnaeth pob un o'r disgyblion hyn gyrraedd trothwyau lefel 1 a lefel 2 yn 2016, a llwyddodd y rhan fwyaf i gyrraedd trothwy lefel 2 gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg. Fe wnaeth yr holl ddisgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim ennill cymhwyster lefel 2 mewn mathemateg.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda iawn mewn gwersi ac yn dangos agwedd gadarnhaol tuag at eu gwaith. Maent yn canolbwyntio'n dda ac yn symud yn rhwydd rhwng tasgau.

Mewn llawer o wersi, mae bron pob un o'r disgyblion yn cofio dysgu blaenorol yn effeithiol ac yn adeiladu ar hyn i wneud cynnydd pellach a dyfnhau eu dealltwriaeth. Maent yn defnyddio terminoleg pwnc yn hyderus ac yn gwneud cynnydd gwerthfawr yn eu gwybodaeth bynciol a'u medrau. Mewn ychydig o wersi, lle mae disgyblion yn gwneud cynnydd eithriadol, maent yn cymhwyso gwybodaeth a medrau y maent newydd eu caffael mewn modd creadigol.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwrando'n astud mewn gwersi ac yn siarad yn hyderus yn y dosbarth ac mewn parau.

Mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n gywir at ystod eang o ddibenion. Mewn mwyafrif o achosion, mae disgyblion yn datblygu'u medrau meddwl yn dda ac yn llwyddo i ysgrifennu darnau estynedig o waith. Mae ychydig o ddisgyblion yn datblygu medrau ysgrifennu creadigol cadarn ac annibynnol, sy'n ennyn diddordeb y darllenydd yn effeithiol.

Mae llawer o ddisgyblion ar draws yr ystod gallu yn ddarllenwyr medrus. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn datblygu medrau darllen lefel uwch yn llwyddiannus a gallant ategu'u barnau gyda thystiolaeth gadarn.

Yn gyffredinol, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn mewn rhifedd yn y gwersi. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn gwneud cynnydd digonol wrth ddatblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) ar draws y cwricwlwm.

**Argymhelliad 2: Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer medrau, yn enwedig llythrennedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh)**

Cynnydd boddhaol wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Ers yr arolygiad craidd, mae'r ysgol wedi cymryd camau priodol i ailstrwythuro'r arweinyddiaeth a'r ddarpariaeth ar gyfer medrau. Mae hyn wedi arwain at fwy o gysondeb ac eglurder wrth roi medrau ar waith ar draws y cwricwlwm.

Mae'r cydlynydd llythrennedd yn rhoi arweiniad a chymorth buddiol i staff. O ganlyniad, ceir cyfleoedd addas i ddatblygu medrau llythrennedd disgyblion o fewn rhaglenni dysgu cyfnod allweddol 3 ac ar draws yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw'r broses ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion mewn llythrennedd ar draws y cwricwlwm wedi'i datblygu'n ddigonol.

Yn ddiweddar, gwnaeth yr ysgol drefniadau priodol i wella'r cyfleoedd i ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 3 wella eu medrau darllen. Yn ogystal, mae'r ysgol wedi cyflwyno rhaglen ddarllen dargedig ar gyfer disgyblion y mae angen cymorth ychwanegol arnynt. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i fesur effaith y mentrau hyn eto.

Mae'r ysgol wedi penodi cydlynydd TGCh yn ddiweddar iawn. Fodd bynnag, megis dechrau cael ei datblygu y mae'r ddarpariaeth ar gyfer TGCh ar draws y cwricwlwm.

**Argymhelliad 3: Gwella ansawdd a chysondeb addysgu ac adborth ysgrifenedig**

Cynnydd cryf wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Ers yr arolygiad craidd, mae'r ysgol wedi cymryd camau cadarnhaol er mwyn gwella cysondeb yn ansawdd yr addysgu o fewn pynciau ac ar draws pynciau. Wrth gynllunio ac arfarnu'r addysgu, mae sylw'r ysgol yn canolbwyntio'n gadarn erbyn hyn ar y cynnydd y mae disgyblion yn ei wneud yn ystod gwersi. Mae'r ysgol wedi datblygu rhaglenni dysgu wedi'u cynllunio'n ofalus, sy'n nodi'n glir y medrau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd i'w datblygu yn yr holl wersi.

Ym mron pob un o'r gwersi, mae gwybodaeth bynciol dda gan athrawon, ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o ddisgyblion. Yn y rhan fwyaf o wersi, maent yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer dysgu disgyblion ac yn cyfleu deilliannau dysgu clir.

Mewn llawer o wersi, mae athrawon yn darparu enghreifftiau buddiol o waith fel bod disgyblion yn deall yn llwyr beth a ddisgwylir ganddynt. Mae athrawon yn datblygu medrau llythrennedd disgyblion yn addas drwy fodelu terminoleg allweddol ac agweddau ar iaith sy'n bwysig i'w pynciau. Mae llawer o athrawon yn sefydlu rhediad da i'w gwersi ac yn gwneud defnydd effeithiol o dechneg holi er mwyn atgyfnerthu'r dysgu.

Ym mwyafrif y gwersi, mae athrawon yn darparu gwaith sy'n ennyn diddordeb ac yn herio disgyblion yn ddigonol. Mewn ychydig o wersi, fodd bynnag, mae athrawon yn darparu gormod o gymorth i ddisgyblion mwy abl, ac mae hyn yn cyfyngu ar ddatblygu eu gallu i feddwl ac ysgrifennu'n annibynnol.

Mewn llawer o wersi, mae athrawon yn darparu adborth gwerthfawr sy'n rhoi cyfarwyddyd clir i ddisgyblion ar sut i wella eu gwaith. Mae adborth ysgrifenedig ar waith disgyblion yn nodi cryfderau a meysydd i'w gwella yn gywir, ac mae disgyblion yn ymateb yn gadarnhaol i hyn. Yn ogystal, mae athrawon yn cynllunio'r cam nesaf yn nysgu'r disgyblion yn effeithiol trwy ddarparu cwestiynau estynedig heriol iddynt. O ganlyniad, mae disgyblion yn gwneud cynnydd pellach yn eu dysgu.

Mae'r ysgol wedi rhoi polisi clir ar waith ar farcio gwaith disgyblion ac ansawdd adborth ysgrifenedig. O ganlyniad, mae lefel uchel o gysondeb ar draws yr holl bynciau erbyn hyn. Mae'r ysgol wedi datblygu system olrhain ddefnyddiol iawn, sy'n galluogi arweinwyr i ddadansoddi cynnydd disgyblion yn rheolaidd. Mae gweithredu'r systemau newydd hyn wedi cael effaith sylweddol ar ddeilliannau yng nghyfnod allweddol 4 yn 2016.

**Argymhelliad 4: Gwella'r ddarpariaeth i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ar draws y cwricwlwm**

Cynnydd boddhaol wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Yn dilyn yr arolygiad craidd, cynhaliodd yr ysgol adolygiad trwyadl o'i gweithdrefnau i gynorthwyo disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae wedi cyflwyno asesiadau gwaelodlin cadarn ar gyfer yr holl ddisgyblion pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol. Mae hyn wedi galluogi'r ysgol i nodi anghenion disgyblion yn gywir a darparu cymorth amserol a phriodol i ddiwallu eu hanghenion unigol. Mae'r gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yn gywir ac wedi'i diweddaru erbyn hyn, ac mae'r ysgol wedi datblygu matrics ehangach defnyddiol i nodi disgyblion y mae angen cymorth bugeiliol ychwanegol arnynt. Mae trefniadau effeithiol gan yr ysgol ar gyfer monitro ac olrhain cynnydd disgyblion ar y gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yn rheolaidd.

Mae'r cynlluniau datblygu unigol (CDU) yn ddogfennau manwl, sy'n cynnwys ystod o wybodaeth ddefnyddiol i gynorthwyo disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol mewn gwersi prif ffrwd. Mae'r rhan fwyaf o dargedau'n cysylltu'n dda ag anghenion dynodedig disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r targedau mewn llawer o'r rhain yn rhai penodol ac ni ellir eu mesur. Mae ychydig o gynlluniau yn cynnwys meini prawf llwyddo clir. Nid yw'r rhan fwyaf o athrawon, fodd bynnag, yn defnyddio'r strategaethau yn y CDU nac yn defnyddio'r ddogfen strategaeth yn ddigon da i gynorthwyo disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol mewn gwersi.

Mae'r ysgol wedi datblygu darpariaeth briodol i gynorthwyo medrau llythrennedd a rhifedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn ystod sesiynau tiwtor yn ystod y bore. Gwneir defnydd effeithiol gan yr ysgol o wasanaethau arbenigol i ddarparu cymorth i ddisgyblion ag anghenion penodol a chymhleth. Mae cynorthwywyr addysgu yn darparu cymorth gwerthfawr ar gyfer disgyblion unigol mewn gwersi. Ceir darpariaeth addas ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu penodol ac anghenion cymhleth mewn gwersi prif ffrwd.

Yng nghyfnod allweddol 4, mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da ar draws bron pob un o'r dangosyddion perfformiad.

**Argymhelliad 5: Gwella ansawdd yr arweinyddiaeth a sicrhau bod cynllunio ar gyfer gwella yn drylwyr ac yn gyson fel bod arweinwyr ar bob lefel yn llwyr atebol am bob agwedd ar y ddarpariaeth a'r safonau yn eu meysydd cyfrifoldeb**

Cynnydd cryf wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Ers yr arolygiad craidd, gwnaed gwaith ailstrwythuro sylweddol i'r uwch arweinyddiaeth a'r arweinyddiaeth ganol, y llywodraethu a'r cwricwlwm yn Ysgol Brynhyfryd. Mae'r pennaeth sydd newydd ei benodi yn rhoi pwyslais cryf iawn ar godi safonau a gwella ansawdd yr addysgu. Mae'n cyfleu gweledigaeth glir a manwl ar gyfer gwella'r ysgol, ac mae'n cael cefngaeth dda gan yr uwch dîm arwain effeithiol. Mae arweinwyr ar bob lefel wedi cael eu hysbrydoli gan y weledigaeth hon, sy'n canolbwyntio'n ddiwyro ar geisio sicrhau'r deilliannau gorau posibl i'r holl ddisgyblion.

Mae dosbarthu cyfrifoldebau arweinyddiaeth yn ehangach yn sicrhau bod llinellau atebolrwydd yn glir. Caiff tanberfformio ei nodi'n gyflym a'i herio'n gadarn. Mae arweinwyr canol yn chwarae rhan arbennig o bwerus yn sicrhau gwelliant. Mae'r strwythur cyfadran newydd yn rhoi eglurder a chysondeb wrth weithredu strategaethau gwella'r ysgol ac atebolrwydd effeithiol ar gyfer cynnydd a deilliannau. Caiff staff eu dal yn gwbl atebol am eu perfformiad eu hunain, ac mae penaethiaid cyfadran yn darparu cymorth a her effeithiol i athrawon yn eu timau. O ganlyniad, ceir ymdeimlad cryf o waith tîm a chydymdrech i sicrhau gwelliant.

Mae prosesau hunanarfarnu a sicrhau ansawdd yr ysgol gyfan yn gynhwysfawr a thrwyadl. Mae arweinwyr wedi nodi'r cryfderau a'r meysydd i'w datblygu yn gywir, ac wedi blaenoriaethu'r meysydd hynny y mae'r brys mwyaf i'w gwella. O ganlyniad, gwelwyd gwelliant sylweddol mewn deilliannau mewn dangosyddion perfformiad allweddol yng nghyfnod allweddol 4 yn 2016. Mae dadansoddiad yr ysgol o'i pherfformiad presennol yn onest a chywir, ac mae arweinwyr yn cydnabod bod cynnydd mewn ychydig o feysydd pwysig wedi bod yn araf. Fodd bynnag, ceir cynlluniau ystyriol i fynd i'r afael â'r diffygion hyn.

Mae cyfraniad arweinwyr canol at brosesau hunanarfarnu a sicrhau ansawdd yn datblygu'n dda. Mae cynlluniau gwella timau cyfadran newydd o safon gyson dda ac yn cynnwys amserlen fanwl a thryloyw i fonitro cynnydd. Mae arweinydd cwricwlwm yr ysgol yn monitro datblygiadau yn fanwl trwy gyfarfodydd rheolaidd â ffocws gyda rheolwyr llinell.

Mewn cyfnod amser byr, mae'r ysgol wedi gweithredu ystod o bolisïau sydd wedi sicrhau gwelliannau yn yr addysgu a'r dysgu. Mae'r rhain yn cynnwys rhaglenni dysgu pwnc wedi'u cynllunio'n dda, calendr asesu clir a system soffistigedig ar gyfer olrhain disgyblion.

**Argymhelliad 6: Cryfhau'r partneriaethau â rhieni**

Cynnydd cryf wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Ers yr arolygiad craidd, mae'r ysgol wedi cryfhau'r berthynas â rhieni. Ceir strategaeth gyfathrebu glir ac mae rhieni yn cael eu hysbysu ynglŷn â phob datblygiad newydd yn yr ysgol erbyn hyn. Mae penodi swyddog cyfathrebu yn ddiweddar yn sicrhau bod rhieni a'r gymuned leol yn cael gwybodaeth dda am fywyd a gwaith yr ysgol.

Mae'r ysgol bellach yn annog rhieni i fod yn rhan o ddysgu eu plentyn. Mae'r rhaglenni dysgu yn rhoi gwybod i rieni am ddysgu eu plentyn mewn gwersi a thrwy waith cartref, a sut byddant yn cael eu hasesu bob hanner tymor. Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais cryf ar ymateb i adborth a phryderon rhieni. Er enghraifft, yn ddiweddar aeth ati i adolygu ei dull o osod targedau i ymateb i bryderon a godwyd gan rieni.

Mae rhieni yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at welliannau yn yr ysgol. Mae'r fforwm rheini yn cryfhau'r cyswllt rhwng yr ysgol a rhieni yn effeithiol. Mae ystod eang o nosweithiau agored â niferoedd da yn bresennol yn gwneud yn siŵr bod rhieni yn cael eu cefnogi'n gadarn wrth helpu eu plant i symud ymlaen at y cyfnod nesaf yn eu dysgu.

## Argymhellion

Er mwyn cynnal y cynnydd hwn a gwella arno, dylai'r ysgol barhau i gynnal lefel y cynnydd y mae eisoes wedi'i wneud, a pharhau i fynd i'r afael â'r argymhellion arolygu hynny lle mae angen gwneud cynnydd pellach.